GENERATION NEW ERA
A STUDY OF CHILDREN BORN IN THE 2020s

# EICH CYFLE I FOD YN RHAN O GENHEDLAETH OES NEWYDD (GENERATION NEW ERA)

Annwyl Riant,

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod bod gennych gyfle i **fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era)** - astudiaeth newydd yn y DU o fabanod a anwyd yn 2022, a'u teuluoedd. Bydd yn darparu mewnwelediadau gwyddonol hanfodol i iechyd a datblygiad plant sy'n cael eu magu yn ein byd cyfnewidiol, ac yn helpu ymchwilwyr, llywodraethau a darparwyr gwasanaethau i wella bywydau plant a theuluoedd yn y DU.

Mae Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn cael ei arwain gan Goleg Prifysgol Llundain (UCL) a Phrifysgol Abertawe. Bydd Ipsos, sefydliad ymchwil annibynnol, yn casglu'r wybodaeth ar ein rhan. Telir amdano gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

**Nid oes angen i chi benderfynu nawr a hoffech gymryd rhan**. O fewn yr ychydig fisoedd nesaf, **bydd Ipsos yn anfon gwahoddiad i'r astudiaeth atoch** gyda mwy o wybodaeth. Yna bydd**cyfwelydd hyfforddedig** o Ipsos yn galw yn eich cyfeiriad i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, ac yn gofyn a hoffech gymryd rhan.

**Os yw'n well gennych beidio â chael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth neu os yw'n well gennych beidio â chymryd rhan**, rhowch wybod i ni ac ni fyddwn yn cysylltu â chi ymhellach. Gallwch roi gwybod i ni drwy Rhadffôn 0800 151 0610 neu e-bost gnestudy@ipsos.com. Cofiwch gynnwys eich cyfeirnod ar frig y llythyr hwn. **Os ydych yn byw gyda rhiant arall eich babi**, ac os ydynt hwy hefyd wedi derbyn y llythyr hwn, **bydd angen iddynt hefyd gysylltu â ni ar wahân** os nad ydynt yn dymuno cael rhagor o wybodaeth neu os yw'n well ganddynt beidio â chymryd rhan.

Diolch ymlaen llaw am eich help. Gobeithiwn y byddwch yn penderfynu bod yn rhan o'r astudiaeth bwysig hon.

Yn gywir iawn,


**Yr Athro Alissa Goodman CBE**
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Y Deyrnas Unedig
Coleg Prifysgol Llundain

**Dr Lucy Griffiths**
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Cymru
Prifysgol Abertawe

## Beth fydd cymryd rhan yn ei olygu?

Byddwn yn gofyn i famau a thadau gymryd rhan mewn cyfweliad. I un rhiant bydd hyn yn cymryd tua 60 munud, ac i'r rhiant arall tua 30-40 munud. **Chi sydd i benderfynu os ydych am gymryd rhan.** Fel diolch am eu hamser, bydd pob rhiant yn derbyn **taleb**. Hoffem hefyd siarad â chi eto wrth i'ch plentyn fynd yn hŷn. Gobeithiwn eich gwahodd i gymryd rhan bob ychydig flynyddoedd. **Chi fydd yn penderfynu bob amser** a ydych am gymryd rhan. Gellir cynnal cyfweliadau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae'r llythyr hwn, a gwybodaeth astudio arall, ar gael mewn ieithoedd eraill ar wefan yr astudiaeth: gnestudy.info.

## Sut cefais fy newis ar gyfer yr astudiaeth hon?

Yn gyntaf, dim ond babanod a anwyd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2022 y mae'r astudiaeth yn eu cynnwys. Yn ail, dim ond 250 o ardaloedd o fewn y DU a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth. Mae babanod a enir yn yr ardaloedd hyn yn cael eu dewis i gynrychioli pawb a aned yn y DU yn 2022.

**Dewiswyd eich teulu ar hap o gofnodion genedigaethau** a gedwir gan GIG Lloegr, sy'n cadw'r cofnodion hyn ar gyfer Cymru, a roddodd eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch babi.

Mae'r teuluoedd a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y teuluoedd yng Nghymru a ledled y DU yn gyffredinol. Mae pob teulu a ddewisir ar gyfer yr astudiaeth yn unigryw ac ni allwn gymryd unrhyw un arall yn eich lle.

## Beth os ydw i'n byw ar wahân i riant arall fy mabi?

Er mwyn ein helpu i greu darlun llawn o fywyd pob plentyn, rydym am gynnwys mamau neu dadau sy'n byw ar wahân i riant arall eu plentyn.

Lle mae gennym enwau a chyfeiriadau'r ddau riant o gofnodion geni, byddwn yn cysylltu â phob rhiant ar wahân i'w gwahodd i gymryd rhan. Os yw hyn yn berthnasol i chi, bydd rhiant arall eich plentyn wedi derbyn y llythyr hwn. Os yw rhieni'n byw ar aelwydydd gwahanol, bydd angen i bob un ohonynt gysylltu â ni ar wahân os nad ydynt yn dymuno cymryd rhan.

**Os yw'n well gennych i ni beidio â gwneud unrhyw gysylltiad pellach â rhiant arall eich plentyn neu os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, cysylltwch â ni ar 0800 151 0610 neu gnestudy@ipsos.com.**

## Eich cyfrinachedd

**Bydd y wybodaeth a roddwch i'r astudiaeth yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol a'i defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig.** Mae gan UCL sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol oherwydd ei fod ar gyfer 'tasg er budd y cyhoedd' o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae gennym hefyd gymeradwyaeth arbennig i dderbyn gwybodaeth o gofnodion geni er mwyn cysylltu â chi gan Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd Awdurdod Ymchwil Iechyd y GIG a Grŵp Cynghori Annibynnol GIG Lloegr ar Ryddhau Data. Mae hyn wedi'i ganiatáu yn dilyn adolygiad gofalus o'r wybodaeth y bydd yr astudiaeth yn ei chasglu, a sut y byddwn yn sicrhau bod eich data a'ch preifatrwydd yn cael eu diogelu. Mae manylion llawn am sut y byddwn yn gofalu am eich gwybodaeth, gan gynnwys beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth os byddwch yn penderfynu peidio â chymryd rhan, yn yr **Hysbysiad Preifatrwydd** ar wefan yr astudiaeth **gnestudy.info/privacy.**